**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-805
Ein cyf/Our ref KW/00594/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

06 Mawrth 2018

Annwyl David

Diolch i chi am eich gohebiaeth dyddiedig 21 Chwefror ynglŷn â'r ddeiseb agored bresennol ar y ddarpariaeth athrawon cyflenwi.

Cafwyd nifer o adroddiadau ar sefyllfa athrawon cyflenwi yn y blynyddoedd diweddar. Fe archwiliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y materion ynglŷn ag athrawon cyflenwi a chyflwynodd argymhellion yn 2015. Mewn ymateb i argymhellion adroddiad y Pwyllgor fe sefydlodd fy rhagflaenydd, Huw Lewis, Dasglu Model Cyflenwi i ystyried y posibilrwydd o gyflwyno model cyflenwi amgen i Gymru. Nododd y Tasglu nifer o faterion a rhwystrau cymhleth o ran cyflwyno un model cyflenwi ac fe argymhellodd yn ei adroddiad a gyhoeddwyd yn Chwefror 2017 nifer o opsiynau ymarferol ar gyfer cefnogi a datblygu athrawon cyflenwi.

Er na allai'r Tasglu argymell model cyflenwi canolog ar yr adeg honno, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ymchwilio i fodelau newydd ar gyfer athrawon cyflenwi. Mae'r model yng Ngogledd Iwerddon, a oedd yn cael ei hyrwyddo gan y grŵp Fair Deal for Supply wedi'i gysylltu â phennu cyflogau ac amodau'r athrawon (gan gynnwys athrawon cyflenwi). Nid yw'r pŵer i bennu cyflogau ac amodau athrawon wedi'i drosglwyddo i Weinidogion Cymru hyd yma, a rhoddwyd y dyddiad o Fedi 2019 fel y dyddiad cynharaf y byddai'r system cyflogau athrawon yn dod i rym yng Nghymru. Bydd y pwerau hyn yn darparu cyfleoedd i bennu cyflogau athrawon a fydd yn ategu ein huchelgeisiau ar gyfer y system addysg yn gyffredinol, i godi safonau a chefnogi a datblygu'r proffesiwn addysgu, gan gynnwys y rhai sy'n gwneud gwaith cyflenwi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cyflogi athrawon, cyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am wneud hyn. Mae rhagor o waith i'w wneud gyda'r sector i ddatblygu modelau newydd i gefnogi'r broses o gyflenwi trefniadau cyflenwi dros dro, ond bydd hyn yn cymryd amser. Mae'r tirlun deddfwriaethol a chyd-destunol yng Nghymru yn wahanol iawn i'r tirlun cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon, ac mae amrediad o faterion cyfreithiol a pholisi i'w trafod. Felly, mae'n bwysig ein bod yn edrych ar systemau amgen yn ogystal â threialu ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu darpariaeth athrawon cyflenwi, er enghraifft y cynllun peilot clwstwr cyflenwi mewn ysgolion, sy'n werth £2.7 miliwn, a gyhoeddais ar 24 Hydref 2017, sy'n cael ei gyflwyno yn awr mewn 15 ardal awdurdod lleol. Nod y cynllun peilot yw treialu dull mwy cynaliadwy a chydweithredol o weithio a chefnogi dysgu proffesiynol ein hathrawon sydd newydd gymhwyso. Mae'r cynllun peilot yn dangos ein hymrwymiad i sicrhau bod nifer o athrawon sydd newydd gymhwyso, a allai ganfod eu hunain fel arall mewn rolau cyflenwi, yn derbyn cefnogaeth ar ddechrau eu gyrfa. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r cynllun peilot yn agos, i weld a yw'r dull hwn yn cynnig model amgen hyfyw y gellir ei gyflwyno'n ehangach.

Hyd yma, er mwyn cefnogi'r argymhellion ehangach yn adroddiad y Tasglu, rydym hefyd wedi ymgymryd â'r camau gweithredu canlynol:

Rydym wedi mynd i'r afael â'r materion pwysig yn nhermau rolau a chyfrifoldebau diogelu i gyflogwyr. Mae swyddogion wedi cyfathrebu'n uniongyrchol yn rheolaidd gydag asiantaethau cyflenwi masnachol sy'n gweithredu yng Nghymru, Awdurdodau Lleol ac ysgolion i'w hatgoffa o'u rhwymedigaethau cyfreithiol yn nhermau cynnal gwiriadau adnabod priodol a gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cyflwynwyd taflenni ffeithiau arweiniol hefyd i asiantaethau cyflenwi masnachol ar faterion sy'n effeithio ar gymhwyster a chofrestriad athrawon cyflenwi; gan gynnwys telerau'r gofynion gwaith statudol penodedig ynglŷn â phwy all addysgu mewn ysgolion a gynhelir.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi arweiniad ar Reoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010, sy'n cynnwys esboniad o Ran-ddirymiad Sweden a pholisi model sefydlu sy'n cyflwyno'r wybodaeth a'r gefnogaeth y dylai asiantaethau cyflenwi masnachol sicrhau sydd ar gael i athrawon cyflenwi o ddiwrnod cyntaf eu lleoliad dros dro. Nid yw cyfreithiau cyflogaeth wedi'u datganoli i Gymru. Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn San Steffan sy'n gyfrifol am glustnodi'r gofynion a'r cyfyngiadau a roddir ar asiantaethau cyflenwi preifat. Mewn ymateb i Adolygiad Taylor o arferion gweithio modern a gyhoeddwyd yn yr haf y llynedd, mae Llywodraeth San Steffan yn ymgynghori ar newidiadau i'r Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth a fydd, o'u gweithredu, yn newid y ffordd mae asiantaethau cyflenwi preifat yn cynnal eu busnes.

Mae Gweithgor Cyflenwi, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector addysg ehangach, gan gynnwys cynrychiolwyr y gweithlu addysg a chyflogwyr, wedi'i gynnull i gefnogi gweithrediad argymhellion y Tasglu ac i drafod, ystyried a chefnogi atebion ymarferol a fydd yn mynd i'r afael â phroblemau cysylltiedig wrth iddynt godi.

Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith i bob athrawes gyflenwi/athro cyflenwi gofrestru ar gyfer cael mynediad personol at adnoddau a chyfleoedd dysgu proffesiynol ar Hwb, llwyfan dysgu addysg Llywodraeth Cymru. Mae'r Hwb yn rhan hollbwysig o addysgu a dysgu, sy'n galluogi i bob athro/athrawes, gan gynnwys athrawon cyflenwi, gael mynediad at, ac i rannu adnoddau a fydd yn ehangu eu datblygiad pedagogaidd. Bydd y trefniadau hyn yn galluogi athrawon cyflenwi, gan gynnwys athrawon sydd newydd gymhwyso i wneud gwaith cyflenwi, i gael mynediad llawn a pharhaus i'r Hwb, waeth beth yw hyd lleoliad dros dro neu ysgol. Fel rhan o'r trefniant hwn mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cyfleuster rhwydwaith sy'n galluogi athrawon cyflenwi i gyfathrebu a rhannu adnoddau ac arfer da.

Mae gan athrawon cyflenwi fynediad hefyd at Basbortau Dysgu Proffesiynol er mwyn cefnogi eu datblygiad proffesiynol.

I gynorthwyo ysgolion rydym wedi cyhoeddi canllaw wedi'i symleiddio ar *'Reoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol'* er mwyn rhannu arfer da y mae ysgolion ac awdurdodau lleol wedi'u mabwysiadu wrth reoli absenoldeb – wedi'i gynllunio a heb ei gynllunio.

Rydym wedi dosbarthu a hybu *Canllaw Pecyn Offer – Cod Ymarfer – Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi* Llywodraeth Cymru i'r sector addysg, gan gynnwys asiantaethau recriwtio masnachol. Bydd y Cod a'r canllaw cysylltiedig yn helpu i sicrhau bod gweithwyr mewn cadwyni cyflenwi yn cael eu trin yn deg ac ymrwymo sefydliadau'r sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i gyfres o gamau gweithredu sy'n mynd i'r afael ag arferion cyflogaeth anghyfreithiol ac annheg.

Gallai fod yn ddefnyddiol i chi wybod fy mod wedi cael cyfarfod gyda chynrychiolwyr y grŵp Rhoi Chwarae Teg i Athrawon Cyflenwi ar 25 Hydref 2017 i glywed eu safbwyntiau'n uniongyrchol ac i roi amlinelliad o'n cynigion i gefnogi athrawon cyflenwi, ysgolion a'n dysgwyr i symud ymlaen. Mae aelodau'r grŵp hwn, gan gynnwys y deisebydd Sheila Jones, wedi cwrdd â'm swyddogion a chynrychiolwyr y Gweithgor Cyflenwi ar 21 a 22 Chwefror i drafod eu pryderon yn fanwl.

Mae nifer o'r pryderon a godwyd gan y grŵp lobïo yn cynnwys y defnydd o asiantaethau cyflenwi masnachol i gyflawni'r galw am athrawon i gyflenwi yn ystod absenoldebau staff a'r defnydd o'r asiantaeth gyflenwi breifat, New Directions, darparwr gwasanaeth a reolir o ddewis awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae trefniadau ar waith i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol adolygu telerau'r contract presennol a bydd swyddogion yn y Gwasanaethau Addysg, Gwerth Cymau a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cwrdd ag aelodau'r grŵp hwn ym mis Mawrth i drafod telerau unrhyw drefniadau contract a'r broses dendro yn y dyfodol.

Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor Deisebau y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried pob opsiwn sydd ar gael, gan gynnwys ymarferoldeb model cyflenwi canolog neu ranbarthol. Hoffwn weld modelau llwyddiannus ar waith i ddarparu athrawon cyflenwi dros dro ym mhob un o'n hysgolion ac rydym yn gweithio at system lle mae staff addysgu o safon dda ar gael, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau dysgwyr, a lle bydd staff addysgu'n cael eu trin yn deg a'u datblygu'n briodol.

Yr eiddoch yn gywir

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education